**Jeremy Miles AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Buffy Williams AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

SeneddPlant@senedd.cymru

13 Ionawr 2025

Annwyl Buffy,

Byddwch eisoes yn ymwybodol bod Eluned Morgan, a oedd yn Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y pryd, wedi cyhoeddi ymgynghoriad yn ystod haf 2024 ar y Rheoliadau drafft a'r dull gorfodi arfaethedig ar gyfer Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Lleoli) (Cymru) 2025 ("y Rheoliadau"). Bydd y Rheoliadau yn cyfyngu ar hyrwyddo a lleoli bwydydd sy'n cynnwys lefelau uchel o fraster, halen a siwgr yn y sector manwerthu, yn ogystal â chyfyngu ar ail-lenwadau am ddim o ddiodydd sydd wedi'u melysu â siwgr yn y sector manwerthu a'r sector y tu allan i'r cartref. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn wedi'u dadansoddi ac mae crynodeb o'r ymatebion wedi'i gyhoeddi heddiw: Cynigion i wneud yr amgylchedd bwyd yn iachach | LLYW.CYMRU. Bydd unrhyw newidiadau i'r polisi a ddaw i'r amlwg o ganlyniad i'r broses ymgynghori yn cael eu hadlewyrchu yn y Rheoliadau.

Rwy'n ysgrifennu atoch yn awr i roi gwybod ichi ymlaen llaw fy mod yn bwriadu gosod fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd yng ngwanwyn 2025. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, rwy'n bwriadu gwneud y Rheoliadau gyda ffenestr gweithredu o 12 mis a fydd yn rhoi amser i'r diwydiant wneud y newidiadau angenrheidiol cyn i'r Rheoliadau ddod i rym yng ngwanwyn 2026. Bydd fy swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol i ddarparu canllawiau cynhwysfawr i'w cefnogi i roi'r Rheoliadau ar waith.

Hoffwn hefyd achub ar y cyfle hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am fy asesiad o'r effaith y gall Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 ei chael ar y Rheoliadau arfaethedig. Yn fy marn i, ni ragwelir y bydd y gwaharddiadau sydd i'w gweithredu gan y Rheoliadau yn dod o fewn cwmpas yr egwyddorion mynediad i'r farchnad o dan y Ddeddf.

Rwy'n hapus i drafod y Rheoliadau hyn â chi a'r Pwyllgor a byddwn yn croesawu eich barn ar ba fath o ymgysylltiad fyddai'n ddefnyddiol i chi ac i'r aelodau eraill i gefnogi eich gwaith craffu.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf hefyd wedi anfon llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care